**Cofnodion Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf**

**27 Chwefror 2026**

0900 – 1400

Lleoliad: Llys Cadwyn

**Yn bresennol**
James Price (Cadeirydd), Heather Clash, Peter Strachan, Alexia Course, Julian Edwards, Marie Daly, Jan Chaudhry Van der Velde.

**Hefyd yn bresennol**
Lewis Brencher, Sam Hadley, Nick Millington a Stephen Morgan.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**
Gan fod cworwm, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan Buddiant**
Cadarnhaodd yr aelodau fod eu datganiadau o fuddiannau a gyhoeddwyd yn dal yn gyfredol ac nad oedd unrhyw fuddiannau ychwanegol i'w datgan, yn ymwneud yn benodol ag eitemau ar yr agenda.

**2. Sylw i ddiogelwch**
Trafododd y Bwrdd afreoleidd-dra o ran anfon trenau a sut mae'r perfformiad yn cymharu â pherfformiad cwmnïau trên tebyg eu maint. Nodwyd bod y meincnodi fel arfer yn seiliedig ar fetrigau fel nifer y digwyddiadau fesul cilometr a galwadau gorsafoedd. Cyfeiriwyd at waith cymharol blaenorol a wnaed ar gyfer Pasio Signalau Stop (SPADs), lle nad oedd y meincnodi yn erbyn cwmnïau trên oedd yn wynebu newidiadau sefydliadol tebyg yn dangos unrhyw wyro sylweddol oddi wrth normau'r diwydiant. [redacted]

**3. Sylw i gwsmeriaid**
Trafododd y Bwrdd drealon i ailgyfeirio'r ciwiau yng ngorsaf Caerdydd Canolog yn ystod dyddiau digwyddiadau, gan nodi nad oes llawer o le ar ochr ddeheuol yr orsaf. Heriodd y Bwrdd yr awgrym y gallai ardaloedd ciwio llai weithio'n effeithiol, gan gyfeirio at y gwersi a ddysgwyd yn sgil rheoli torfeydd ar adeg digwyddiadau mawr. Trafodwyd cydweithio â'r awdurdod lleol, gan gynnwys arwyddion a chau ffyrdd, a thrafodwyd opsiynau eraill gan gynnwys ciwio yn Cathays. Bydd y treial yn cael ei gynnal ar rodfa gyhoeddus gyda chynlluniau lliniaru ar waith i osgoi tagfeydd ac effaith ar y traffig. Ystyriwyd yr angen i ddiogelu profiad cwsmeriaid bob dydd, yn

enwedig yn ystod dyddiau digwyddiadau rheolaidd, gydag awgrymiadau fel ciwiau penodol i weithwyr lleol er mwyn lleihau'r tarfu ar deithio. Bydd cyfathrebu clir yn allweddol i egluro pam mae'r treial yn cael ei gynnal a sut y dylai wella'r gallu i symud pobl allan o'r ddinas.

**4. Cofnodion a Chamau Gweithredu**

Cymeradwywyd cofnodion 30 Ionawr 2026 yn amodol ar ddiwygiadau. Nodwyd y Log Camau Gweithredu.

**5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau**

Adolygodd y Bwrdd heriau presennol y fflyd, [redacted] Tynnwyd sylw at gynnydd cadarnhaol mewn partneriaethau rheilffyrdd lleol a'r model Rhwydwaith-T sy'n aeddfedu, er bod y perfformiad dros bellter hir, yn enwedig ar y prif lwybr gogledd-de, yn dal yn is na'r hyn a ragwelwyd, gan sbarduno trafodaeth ar gyflymu'r gwaith o wella perfformiad a lleihau'r refeniw sy'n cael ei golli yn sgil meddiannu estynedig, a **[gofyn i MD/NM gyflwyno Llinell Gogledd Cymru i'w thrafod fis nesaf]**. [redacted] Trafodwyd glendid trenau, yn enwedig ar drenau Class 158. [redacted]

**5.1 – Llwybr Rhwydwaith-T Lleol y Gororau**

Trafododd y Bwrdd ymgysylltu â staff y Gororau, gan nodi'r gwelliannau a wnaed i'r cyfyngiadau cyflymder dros dro isaf ar gyfer Cymru a'r Gororau (WCB). Nodwyd mai gostyngiadau targed yw'r ffigurau ar gyfer nifer y munudau o oedi, a thrafododd y Bwrdd sefydlu targedau clir a sut y bydd perfformiad yn cael ei fesur. Dywedwyd wrth y Bwrdd y bydd targedau'n cael eu hychwanegu at gynlluniau busnes i gefnogi atebolrwydd, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i atgyfnerthu'r tîm perfformiad a chreu dangosfwrdd unedig. Bydd diweddariad yn cael ei roi i'r Bwrdd.

**6. Strategaeth Perfformiad**

Adolygodd y Bwrdd y lefelau perfformiad sy'n cael eu rhagweld ar draws y meysydd gwasanaeth allweddol, gan ystyried heriau gweithredol cyffredinol, ffactorau allanol, a mentrau gwella sy'n dal i fynd rhagddynt [redacted] Trafododd y Bwrdd bwysigrwydd cynnal gwasanaethau dibynadwy, diweddaru arferion gweithredol yn unol â gallu'r fflyd fodern, a sicrhau bod mesurau perfformiad, fel prydlondeb a rheoli capasiti, yn parhau i gyd-fynd ag anghenion cwsmeriaid.

[redacted]

[redacted]

**8. Adroddiad Diogelwch**

[redacted] Cofnodwyd deg ymosodiad corfforol yn ystod y cyfnod, sy’n gyson â’r cyfartaleddau, a chafwyd trafodaeth ynghylch a ddylid mabwysiadu agwedd gryfach o ddim goddefgarwch, gan nodi bod pedwar digwyddiad wedi arwain at fân anafiadau a bod y cyfraddau cyffredinol yn dal yn isel. [redacted] Nododd y Bwrdd ddigwyddiadau ar wasanaeth Bws Traws Cymru, gyda phedwar o’r chwe gwrthdrawiad a gofnodwyd yn ystod y cyfnod hwn yn digwydd ar y gwasanaeth T1, ac yn cael eu priodoli i broblemau arsylwi cyflymder isel ymysg gyrwyr mwy newydd a llai profiadol.

**9. Adolygiad Cyllid Cyfnodol**

[redacted]

**10. Diweddariad Masnachol**

[redacted] Trafododd y Bwrdd yr heriau refeniw

sy'n cael eu priodoli i dywydd garw [redacted] Yn sgil rhagor o waith ystyried gweithredol tynnwyd sylw at gamgymeriadau a wnaed yn ystod digwyddiadau tywydd garw diweddar a'r angen i adolygu strategaethau ar gyfer llwybrau penodol **[gyda cham gweithredu i asesu'r opsiynau ar gyfer rhybuddion rhanbarthol ac i fireinio'r negeseuon i gwsmeriaid a'r prosesau ad-dalu MD/CW/LB]**. [redacted]

**10.1 Refeniw Traws Cymru**
Nododd y Bwrdd y diweddariad ar refeniw Traws Cymru.

**11. Diweddariad ar Farchnata**
Nododd y Bwrdd faterion parhaus yn ymwneud â'r CRM [redacted], gyda TG yn blaenoriaethu atebion, a chynllun tymor byr, canolig a hir yn cael ei baratoi i'w ddosbarthu'n ehangach. Arweiniodd y drafodaeth ar berfformiad marchnata at geisiadau am flaengynllunio cliriach a dadansoddiad cliriach o enillion ar fuddsoddiad, gyda diweddariadau'n cadarnhau gwaith econometrig parhaus, datblygu strategaeth cyfryngau wedi'i mireinio a model cymysgedd marchnata newydd. Gofynnodd y bwrdd i'r adrannau masnachol a marchnata gael eu halinio i hyrwyddo trafodaeth gydweithredol, **[gyda cham gweithredu i alinio'r adrannau ar yr agenda nesaf SM]**. Crybwyllwyd data cyfyngedig ar gyfer marchnata bysiau ochr yn ochr ag ansicrwydd ynghylch gwariant yn y dyfodol, gan arwain at **[gam gweithredu i gadarnhau'r gyllideb marchnata bysiau briodol LB]**. Trafododd y Bwrdd ddiddordeb cynyddol cyflogwyr mewn cynllunio teithio i'r gweithle, offer ymgysylltu busnes i fusnes, ac addasiadau posibl i wasanaethau i gefnogi anghenion y gweithlu; **[cytunwyd ar gam gweithredu i dimau ddychwelyd gyda chynigion cynllunio teithio i'r gweithle SH,LB,AC,KT]**. [redacted]

**12. Unrhyw Fater Arall**
[redacted]

**Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.**

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES